



Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Ddydd Bloomfield

**Canolfan Gymunedol Tŷ Bloomfield
Heol Redstone
Arberth
SA67 7ES**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/04/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Bloomfield yn wasanaeth gofal dydd llawn sy'n darparu gofal i uchafswm o 17 o blant rhwng chwe wythnos a phedair oed. Darperir y gofal o ystafelloedd dynodedig mewn canolfan gymunedol. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, a chaiff rhywfaint o Gymraeg achlysurol ei defnyddio, yn enwedig gyda'r plant hynny o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Emma Richards yw person cofrestredig y gwasanaeth, a Cheryl Crowdy yw'r person â chyfrifoldeb.

Thema	Statws
Llesiant	Da
Gofal a Datblygiad	Da
Yr Amgylchedd	Digonol
Arwain a Rheoli	Digonol

Crynodeb

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth hwn. Mae'r staff yn frwd ac yn ofalgar, ac maent yn rhoi cymorth da i'r plant datblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth. Mae'r amgylchedd wrthi'n datblygu, ynghyd ag arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth, dan arweiniad person cofrestredig newydd a pherson â chyfrifoldeb newydd.

2. Gwelliannau

Roedd yr arweinwyr a'r staff wedi gwella'r amgylchedd ar gyfer babanod drwy ailaddurno ystafell y babanod a gosod carped newydd. Yn dilyn ein hymweliad, roedd yr arweinwyr wedi diweddarau'r datganiad o ddiben a nifer o'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni'r rheoliadau. Roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno noson rhieni er mwyn i'r rhieni drafod cynnydd eu plant gyda staff y feithrinfa.

3. Gofynion ac argymhellion

Rhoesom wybod i'r person cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag arfarniadau'r staff (rheoliad 29 (3) (a)) a chynnal gwiriadau llawn o addasrwydd pob aelod o'r staff (rheoliad 28 (2) (b)) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol

ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni hyn ac edrychir ar y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom argymhellion hefyd ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

1. Llesiant

Da

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn y gwasanaeth hwn. Roedd ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'r plant eraill. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i leisio eu barn a datblygu eu sgiliau unigol.

Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn rheolaidd, ac mae'r staff yn gwerthfawrogi eu diddordebau. Er enghraifft, pan oedd plentyn am barhau i baentio ac roedd gweddill y grŵp wedi gorffen, roedd hi'n gallu gwneud hynny.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarn â gofalwyr cyson. Roedd y plant yn hapus i fynd at y staff i gael eu cofleidio ac i eistedd ar eu gliniau. Roedd system gweithwyr allweddol a phroses ymgartrefu ar waith, a chadarnhawyd gan y rhieni bod eu plant yn mwynhau mynd i'r gwasanaeth. Roedd y plant yn hyderus ac yn wydn. Er enghraifft, pan syrthiodd plentyn yn yr awyr agored, cododd ar unwaith a pharhau i chwarae'n hapus.

Mae'r plant yn dysgu sut i rannu gyda chymorth, ac maent yn meithrin cyfeillgarwch yn unol â'u camau datblygu. Er enghraifft, pan oedd gan blentyn hŷn degan yr oedd yn gwybod bod ei ffrind yn aros amdano, parhaodd i chwarae gyda'r tegan am sbel cyn ei roi i'w ffrind.

Mae'r plant yn llawn diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Gwelsom fod y plant yn ymddiddori mewn gweithgareddau, megis paentio, chwarae gyda chegin fach neu wneud symudiadau i ganeuon. Roedd y babanod yn wên o glust i glust wrth i aelod o'r staff ddarllen stori iddynt, ac roedd plentyn yn gwenu ac yn curo'i dwylo pan osododd y darn jig-so yn y lle cywir.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud pethau drostynt eu hunain. Roeddent yn tynnu eu cotiau eu hunain, yn cario eu platiau adeg amser cinio, yn gwago eu platiau i'r bin gwastraff bwyd ac yn mynd i nôl adnoddau yn annibynnol yn ôl yr angen. Roeddent yn hapus i roi cynnig ar wneud pethau drostynt eu hunain, megis tynnu croen oren, ac yn dyfalbarhau i ddatrys problemau. Pan nad oedd plentyn yn hapus â lleoliad cadair, cododd a'i gwthio i mewn, cyn eistedd lawr eto. Roeddent yn adnabod lliwiau ac roedd rhai o'r plant hŷn yn gallu cyfrif i 20 yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Crynodeb

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn gyfarwydd iawn â sgiliau a dewisiadau'r plant. Mae'r staff yn frwd, yn gadarnhaol ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddatblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth. Mae'r staff yn cydymffurfio â'r polisiâu a gweithdrefnau perthnasol yn dda er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant a hylendid bwyd. Roedd bron pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig. Gwelsom fod y staff yn defnyddio gweithdrefnau hylendid da wrth newid cewynnau, darparu dillad gwely glân a gweini cinio. Dangosodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r polisi meddyginiaeth a'u bod yn dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt wrth roi meddyginiaeth. Wrth drafod sefyllfa diogelu plant ddamcaniaethol, gwnaethant ddangos eu bod yn deall y gweithdrefnau diogel i'w dilyn. Roedd y staff yn darparu byrbrydau iachus, megis amrywiaeth eang o ffrwythau, ffyn bara a thost. Roedd y rhieni'n darparu cinio i'r plant, ac roedd yr arweiniwyr a'r staff wedi diwygio'r fwydlen prydau ysgafn ar gyfer y prynhawn er mwyn ei gwneud yn fwy iachus. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn bwriadu rhoi'r rhaglen Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy ar waith yn y gwasanaeth eto er mwyn parhau i wneud gwelliannau. Roedd y staff yn rhoi'r rhaglen brwsio dannedd, Cynllun Gwên, ar waith yn hyderus, gan annog y plant i frwsio eu dannedd yn dda, a hynny drwy ddilyn gweithdrefnau hylendid priodol. Roedd y staff yn mynd â'r plant allan i chwarae'n rheolaidd, gan sicrhau bod dillad addas ar gael iddynt fynd allan ym mhob tywydd.

Roedd y staff yn frwd a chadarnhaol iawn wrth ryngweithio â'r plant. Roeddent yn helpu'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch drwy roi llawer o ganmoliaeth iddynt. Er enghraifft, dywedodd y staff, *"Wow! Well done"* a *"That's so special!"* pan ddangosodd y plant eu gwaith paentio a gludo i'r staff. Roeddent yn rhoi negeseuon cyson a chadarnhaol i'r plant, megis *"Kind hands,"* a *"Be kind to our friends." Be kind to our friends."*

Mae'r staff yn ymwybodol iawn o sgiliau, anghenion a dewisiadau'r plant, ac maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol. Er enghraifft, roeddent yn sicrhau bod gan y plant eu heitemau cysur i fynd i gysgu, a gallent ddweud wrthym am y ffordd roeddent yn diwallu anghenion meddygol penodol y plant. Roedd y staff yn cynnal arsylwadau rheolaidd ar ddatblygiad y plant ac yn trefnu gweithgareddau i ymestyn eu sgiliau. Er bod y staff yn cynllunio'n fanwl, roeddent yn seilio'r gwaith cynllunio ar y Cyfnod Sylfaen Saesneg yn hytrach na'r Cyfnod Sylfaen Cymraeg. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion ieithyddol y plant, ac roedd y staff Cymraeg eu hiaith yn siarad â'r plant hynny o gartrefi Cymraeg yn yr iaith honno yn unig.

Crynodeb

Mae'r arweinwyr wrthi'n datblygu'r amgylchedd. Maent wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd ac wedi nodi meysydd eraill i'w gwella. Maent yn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar blant ac mae'r amgylchedd yn ddiogel yn gyffredinol.

Ein canfyddiadau

Nodwyd rhai risgiau gan yr arweinwyr a chymerwyd camau gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain. Er enghraifft, roeddent yn cadw drws y gwasanaeth ar glo, roedd giatiau diogelwch yn eu lle ac roedd y person â chyfrifoldeb yn cadw cofnod o ymwelwyr. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg ar waith ar gyfer yr ardal awyr agored ac roedd aelodau'r cyhoedd yn cerdded drwy ardal chwarae awyr agored y plant wrth iddynt chwarae. Gwnaeth y staff ymdrin â'r mater hwn yn broffesiynol ac yn ddiogel gan ofyn i'r plant aros gyda'i gilydd mewn un man wrth iddynt gerdded drwyddi. Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod yr arweinwyr a'r staff yn cadw'r feithrinfa'n lân ac yn ddiogel, megis rhestr o wiriadau i'w cynnal bob dydd adeg agor a chau'r gwasanaeth, ac amserlen lanhau.

Roedd yr arweinwyr wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r ardal dan do, yn enwedig ystafell y babanod, lle roeddent wedi ail-baentio'r ystafell a gosod carped newydd ynddi. Roedd y person â chyfrifoldeb yn ymwybodol y gellid gwneud gwelliannau pellach ac yn bwriadu canolbwyntio ar ardal y plant hŷn nesaf. Roedd gwaith paent yn plicio yr ystafell hon ac roedd y waliau wedi'u tolacio mewn mannau. Roedd yr arweinwyr a'r staff wedi dechrau datblygu'r meysydd dysgu, megis yr ardal gwneud marciau, y gornel chwarae rôl a'r ardal fathemateg. Roedd yr arweinwyr wedi darparu ystafell gysgu er mwyn i'r babanod gysgu mewn llonydd, toiledau hawdd eu cyrraedd i'r plant hŷn ac ystafell ddynodedig ar gyfer newid cewynnau er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y plant. Roedd yr arweinwyr a'r staff wedi rhoi arddangosfeydd lliwgar ac addas a oedd yn cynnwys geirfa ddwyieithog ar y wal. Dim ond rhai o'r adnoddau a oedd wedi'u labelu, ond gallai'r plant gael gafael ar lawer o'r adnoddau'n annibynnol am eu bod yn cael eu storio ar lefel isel a gweladwy. Roedd yr arweinwyr wedi darparu ardal awyr agored a oedd yn cynnwys gardd fach, iard ac ardal o goed helyg â rhai seddau ac adnoddau sylfaenol, megis llithrennau bach a thŷ bach twt. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi nodi'r amgylchedd awyr agored fel maes i'w gwella.

Roedd yr arweinwyr wedi darparu dodrefn o faint addas i'r plant a phramiau ar gyfer doliau. Roeddent wedi darparu adnoddau a oedd yn addas i oedran y plant ond roedd eu cyflwr yn amrywio. Er enghraifft, roedd gan y babanod deganau i'w helpu i gerdded a blociau adeiladu syml, ac roedd pypedau, teganau byd bach ac offer gwneud marciau ar gael i'r plant hŷn. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r teganau'n edrych yn hen ac yn dreuliedig. Er enghraifft, roedd y paent yn plicio oddi ar degan trefnu siapiau. Roedd yr arweinwyr yn darparu rhai adnoddau naturiol i'r plant eu harchwilio, megis tywod a chorbys, ond nid oeddent wedi darparu teganau a oedd yn hybu amrywiaeth ddiwylliannol.

4. Arwain a Rheoli

Digonol

Crynodeb

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth wrthi'n datblygu. Mae'r person â chyfrifoldeb, sydd wedi bod yn y swydd ers tua saith mis, yn gwneud gwelliannau parhaus ac yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach. Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r polisïau.

Ein canfyddiadau

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn datblygu. Mae'r arweinwyr wedi gwneud nifer o welliannau. Er enghraifft, roedd y person â chyfrifoldeb wedi diweddarau amrywiaeth o bolisïau a archwiliwyd, gan gynnwys polisïau ar gyfrinachedd, diogelu, cwynion ac ymddygiad. Roedd y polisïau diweddaredig yn llawn gwybodaeth, yn canolbwyntio ar y plant ac yn bodloni'r gofynion. Roedd yr arweinwyr wedi diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn ei gwneud yn gliriach pwy oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym eu bod wedi cadarnhau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen iddi gofrestru.

Roedd yr arweinwyr blaenorol wedi cynnal adroddiad ac arolygiad blynyddol ar ansawdd y gofal, er nad oedd yn adlewyrchu'n glir fod barn y staff a'r plant yn cael ei hystyried. Roedd gwybodaeth gan y rhieni a'r staff, a gafwyd fel rhan o'r broses arolygu, yn dangos fod yr arweinwyr bob amser yn gwrando ar eu barn.

Nid oedd yr arweinwyr yn cydymffurfio â'r holl reoliadau mewn perthynas â rheoli'r staff. Nid oedd y staff wedi bod yn cael sesiynau goruchwyllo nac arfarniadau blynyddol. Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom nad oedd yr arweinwyr wedi cwblhau'r holl wiriadau addasrwydd perthnasol ar aelodau rheolaidd o'r staff. Fodd bynnag, cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod rhywun wedi cyflenwi pan oedd y gwasanaeth yn brin o staff a oedd â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond nad oedd pob un o'r gwiriadau addasrwydd eraill wedi'u cwblhau. Ers hynny, dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod ganddi nifer o staff cronfa y gellid galw arnynt pe bai sefyllfa o'r fath yn codi eto, a'u bod wedi cael yr holl wiriadau angenrheidiol.

Roedd yr arweinwyr wedi rhoi systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cadw cofnodion yn effeithiol, gan gynnwys cofnodion presenoldeb, rhoi meddyginiaeth, a damweiniau. Roedd y person â chyfrifoldeb wedi rhoi system ar waith i sicrhau bod digon o staff bob amser i ddiwallu'r cymharebau staff i blant perthnasol ar gyfer plant o wahanol oedrannau.

Roedd yr arweinwyr wedi cael yr holl wybodaeth berthnasol gan y rhieni am anghenion a dewisiadau'r plant. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr wedi cytuno ar gontractau gofal y plant. Yn dilyn ein hymweliad, cynhaliodd yr arweinwyr a'r staff noson rieni cyntaf y gwasanaeth, a oedd yn galluogi'r rhieni i gwrdd â gweithiwr allweddol eu plentyn a thrafod ei gynnydd. Er bod rhai trefniadau caniatâd ar waith ar gyfer rhai agweddau ar ofal y plant, nid oedd yr arweinwyr wedi cael caniatâd i rannu gwybodaeth am ofal y plant gydag unrhyw

person neu grŵp arall. Fodd bynnag, cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod hyn yn berthnasol ar brydiau am ei bod yn bosibl y byddai'r plant yn cael eu trosglwyddo rhwng y feithrinfa a'r Cylch Meithrin sy'n cael ei gynnal yn yr un adeilad.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwyd gennym y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- Cael caniatâd y rhieni i rannu gwybodaeth am y plant, lle bo'n berthnasol;
- cytuno ar gytundebau â'r rhieni ar gyfer gofal pob plentyn;
- datblygu system adolygu'r gwasanaeth sy'n sicrhau bod barn y rhieni, y staff a'r plant yn cael eu hystyried yn llawn;
- gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesu a chynllunio;
- darparu adnoddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol; a
- cwblhau asesiad risg ar gyfer pob ardal awyr agored a ddefnyddir gan y plant.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Ebrill 2019 am tua wyth awr. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar y gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y rhieni, y staff, y person â chyfrifoldeb a'r person cofrestredig;
- darllen dau holiadur gan rieni a dau gan staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Person Cofrestredig	Emma Richards
Person â chyfrifoldeb	Cheryl Crowdy
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	17
Ystod oedran y plant	6 wythnos i 4 blwydd oed
Oriau agor	Rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener
Iaith weithredol y gwasanaeth	Saesneg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	16 Tachwedd 2016
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	16 Ebrill 2019
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi – Dydd Gwener, 5 Gorffennaf 2019